

GORCHYMYN CYNGOR GWYNEDD
(GWAHARDD A CHYFYNGU AROS A MANNAU PARCIO AR Y STRYD)
(EFAILNEWYDD) 2009

Mae Cyngor Gwynedd (y cyfeirir ato wedi hyn fel “y Cyngor”) trwy ymarfer ei bwerau o dan Adrannau 1, 2, 4, 32 35, 45, 46, 47, 49, 51, 63A a 124 a Rhan IV o Atodlen 9 o Ddeddf Rheoli Traffig y Ffurdd 1984 (“Deddf 1984”), fel y newidiwyd ac y Ddeddf Rheolaeth Trafnidiaeth 2004 a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori gyda Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984 drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:-

RHAN I
ENWI A DEHONGLI

1. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar y 19^{fed} ddydd o Hydref 2009 a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Gwaharddiad Aros) (Efailnewydd) 2009.
2. Yn y Gorchymyn hwn, ac eithrio lle bo’r cyd-destun yn golygu rhywbeth gwahanol mae i’r ymadroddion a ganlyn yr ystyron a roddir iddynt yma:
mae gan “*Ambiwlans*” yr un ystyr a’r hyn sy’n y Ddeddf Ecséis a Chofrestru Cerbydau 1994;
golyga “*Asiant Awdurdodedig*” y contractwr gwasanaethau parcio a benodwyd gan neu a awdurdodwyd yn briodol i weithredu ar ran y Cyngor i ddibenion goruchwylia a gorfodi’r Gorchymyn hwn;
mae “*Man Parcio Awdurdodedig*” yn golygu unrhyw Fan Parcio ar y ffordd a awdurdodwyd neu a ddynodwyd gan y Gorchymyn hwn;
mae ystyr “*Bws*” yr un fath a’r hyn sydd yn Rheoliad 22 o Reoliadau 2002;
golyga “*Arosfan Bws*” unrhyw ran o’r gerbydlon a fwriadwyd i Fysiau aros, sydd wedi ei chynnwys ac wedi ei dangos gan farciau ar y ffordd sy’n cydymffurfio gyda diagram 1025.1 neu 1025.3 neu 1025.4 ac yn ymgorffori’r geiriau “*Arosfan Bws*” yn Atodlen 6 gydag arwydd yn cydymffurfio gyda diagram 970 yn Atodlen 5 i Reoliadau 2002;
mae “*Clirffordd Arosfan Bws*” yn golygu unrhyw ran o’r Gerbydlon a fwriadwyd ar gyfer bysiau sy’n aros, sydd wedi ei chynnwys ac a ddangosir gan farciau ffordd sy’n cydymffurfio gyda diagram 1025.1, .3 a .4 yn Atodlen 6 ag arwydd sy’n cydymffurfio gyda diagram 974 yn Atodlen 5 i Reoliadau 2002;
mae “*Cerbydlon*” yn golygu ffordd sy’n briffordd neu wedi ei chynnwys yn rhan ohoni (heblaw

am drac beic) y mae gan y cyhoedd hawl tramwy i gerbydau deithio; mae gan “*Swyddog Gorfodi Sifil*” yr un ystyron ac sydd yn cael ei ddiffinio yn Adran 76(1) o’r Deddf 2004 mae i “*Cerbyd Person Anabl*” yr un ystyron ac sydd yn y Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Eithriadau i Bobl Anabl) (Cymru) 2000; mae “*Bathodyn Person Anabl*” a “*Disg Parcio*” yn golygu’r bathodyn a’r disg a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 neu yn fathodyn sy’n gweithredu o dan y rheoliadau yma fel pe byddai’n Fathodyn Person Anabl; golyga “*Gyrrwr*”, mewn perthynas â cherbyd sy’n aros mewn lle parcio neu ar ffordd neu ddarn o ffordd, y person oedd yn gyrru’r cerbyd ar yr adeg y cafodd ei adael yn y Man Parcio hwnnw neu’r ffordd neu ran o’r ffordd; mae “*Deddfiad*” yn golygu unrhyw ddeddfiad, boed yn gyhoeddus cyffredinol neu yn lleol, ac mae’n cynnwys unrhyw orchymyn, is-ddeddf, rheol, rheoliad, cynllun neu unrhyw offeryn arall sydd mewn grym drwy rinwedd Deddfiad a bydd unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at unrhyw Ddeddfiad yn cael ei ystyried fel cyfeiriad at y Deddfiad hwnnw fel y newidiwyd, defnyddiwyd, cydgrynhowyd, ail-ddeddfwyd neu sydd mewn grym drwy rinwedd unrhyw Ddeddfiad dilynol; mae “*Nwyddau*” yn golygu nwyddau neu lwyth o unrhyw ddisgrifiad ac yn cynnwys pecynnau post o unrhyw fath; mae “*Cerbyd Nwyddau*” yn golygu cerbyd modur sydd wedi ei adeiladu neu ei addasu i gludo Nwyddau ac nad yw yn ddim mwy na 5.30 metr o hyd neu 2.25 metr o uchder; mae “*Cerbyd Hacni*” yn golygu cerbyd a drwyddedwyd o dan Adran 38 o’r Ddeddf Cerbydau (Ecséis), 1971; mae gan “*Dyfais Rhwystro Symud*” yr un ystyron ac ag yn Adran 104(9) o’r Ddeddf 1984 mae “*Llwytho*” yn cynnwys Llwytho neu Dadlwytho Nwyddau i neu o gerbyd; mae gan “*Feic Modur*” a “*Cerbyd yr Anabl*” yr un ystyron ag yn Adran 136 o Ddeddf 1984; mae gan “*Cerbyd Modur*” yr un ystyr a’r hyn sydd yn Adran 136 o Ddeddf 1984; golyga “*Perchennog*”, mewn perthynas â’r cerbyd yr unigolyn sy’n cadw’r cerbyd. Wrth benderfynu pwy oedd Perchennog y cerbyd ar unrhyw adeg fe ragdybir mai’r Perchennog yw’r unigolyn y cafodd y cerbyd ei gofrestru yn ei enw ar y pryd o dan y Ddeddf Ecséis Cerbydau a Chofrestru 1994; mae “*Man Parcio*” yn golygu unrhyw Fan Parcio a ddangosir ar Gerbydlon gan farciau yn unol â Rheoliadau 2002, ar ffordd a ddynodwyd gan orchymyn a wnaed neu sydd a’r effaith fel pe tai

wedi ei wneud o dan Ddeddf 1984;
mae “*Tal Cosb*” a “*Tâl Cosb Gstyngol*” yn golygu tâl sydd wedi ei osod gan y Cyngor o dan ddarpariaeth adran 78 o’r Ddeddf 2004 a Chanllawiau 2008 sydd i’w talu i’r Cyngor o fewn 28 diwrnod yn dechrau gyda dyddiad y rhybudd, neu 14 diwrnod mewn achosion o Dâl Cosb Ostyngol yn dilyn cyhoeddi’r Rhybudd Tâl Cosb;
golyga “*Rhybudd Tâl Cosb*” neu “*RHTC*” rybudd a rhoddwyd neu a gyflwynwyd gan Swyddog Gorfodaeth Sifil yn unol â darpariaethau adran 78 o’r Ddeddf 2004;
mae “*Oriau a Ganiateir*” yn golygu’r oriau a nodwyd ar y cynlluniau sy’n atodol i’r Gorchymyn hwn;
mae “*Cynlluniau*” yn golygu’r cynlluniau yn yr Atodlen sy’n atodol i’r Gorchymyn hwn;

mae “*Safle Perthnasol*” o safbwyt: -

- (a) Bathodyn Person Anabl, yn golygu
 - (ii) yn achos cerbyd gyda borden flaen neu banel ffasgia, bydd y bathodyn yn cael ei arddangos arno fel bod rhan 1 o’r bathodyn yn glir o du allan i’r cerbyd; neu
 - (iii) yn achos cerbyd heb forden flaen neu banel ffasgia, bydd y bathodyn yn cael ei arddangos mewn safle amlwg ar y cerbyd fel bod rhan 1 o’r bathodyn yn glir o du allan i’r cerbyd;
- (b) mae Disg Parcio Person Anabl, yn golygu bod yr ochr sy’n dangos y chwarter awr pan ddechreuodd yr amser aros i’w weld yn glir o du allan i’r cerbyd;
- (c) mae Cerdyn Parcio Preswylydd a Thystysgrif Hepgor, yn golygu
 - (i) yn achos cerbyd gyda borden flaen neu banel ffasgia, bydd y Cerdyn Parcio yn cael ei arddangos arno fel bod rhan o’r Cerdyn i’w weld yn glir o du allan i’r cerbyd; neu
 - (ii) yn achos cerbyd heb forden flaen neu banel ffasgia, bydd y Cerdyn Parcio yn cael ei arddangos mewn safle amlwg ar y cerbyd fel bod y Cerdyn i’w weld yn glir o du allan i’r cerbyd;

mae “*Safle Penodol*” yn golygu cerbyd a adawyd mewn Man Parcio yn ystod yr Oriau a Ganiateir yn unol â darpariaethau blaenorol y Gorchymyn hwn sy’n achosi iddo sefyll:-

- (a) yn achos y Man Parcio mewn perthynas â lle bo darpariaethau arbennig ynglŷn â’r modd mae cerbyd yn sefyll yn y lle hwnnw wedi eu pennu yn y cynlluniau sy’n atodol i’r Gorchymyn hwn fe fyddant yn unol â’r darpariaethau hynny;
- (b) yn achos unrhyw Fan Parcio arall -
 - (i) os nad yw’r Man Parcio ar stryd unffordd, fod yr ochr chwith neu ochr

- agosaf y cerbyd ger ochr chwith y Gerbydlon;
- (ii) bod y pellter rhwng ochr y Gerbydlon ag olwyn agosaf y cerbyd ddim mwy na 300 milimetr;
- (c) fel bod pob rhan o'r cerbyd o fewn cyfyngiadau'r Man Parcio;
- (d) nad oes unrhyw ran o'r cerbyd yn rhwystro unrhyw fodd cerbydol o fynediad i mewn neu allan o unrhyw eiddo ger ochr y ffordd lle mae'r cerbyd yn aros.

mae "*Rheng Dacsi*" yn golygu ardal o'r Gerbydlon sydd wedi ei chynnwys o fewn ac wedi ei dangos gan farciau ffordd sy'n cydymffurfio gyda diagram 1028.2 yn Atodlen 6 o Reoliadau 2002;

golyga "*Oriau Penodol*" yr oriau a nodwyd ar gyfer mannau parcio neu ddadlwytho ar y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn;

mae gan "*System Telathrebu*" yr un ystyr a'r hyn sydd yn Nedd Telathrebu 1984;

mae "*Rheoliadau 2002*" yn golygu'r Rheoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddiadau Cyffredinol 2002;

mae "*Canllawiau 2008*" yn golygu'r Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Canllawiau ar Lefelau Taliadau) (Cymru) 2008;

mae "*Deddf 1984*" yn golygu Deddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984;

mae "*Deddf 2004*" yn golygu Gorchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004

mae "*Arwydd Traffig*" yn golygu arwydd o unrhyw faint, lliw a math a bennwyd neu a awdurdodwyd yn unol â neu a'r effaith fel pe byddai wedi ei bennu neu ei awdurdodi yn unol ag Adran 64 o Ddeddf 1984.

mae "*Tystysgrif Hepgor*" yn golygu tystysgrif a gyflwynwyd yn briodol ar ran y Cyngor i ddibenion Erthygl 25 sy'n caniatáu i gerbyd penodol i aros mewn amgylchiadau penodol ar ddarn neu ddarnau o ffordd lle y byddai'r aros i'r cerbyd hwnnw fel arall yn cael ei wahardd;

3. Ac eithrio lle dywedir fel arall, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen rifedig yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sydd a'r rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.
4. Bydd y gwaharddiadau a osodwyd gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol i ac nid yn amharu ar unrhyw gyfyngiad, gwaharddiad neu ofyniad a osodwyd gan unrhyw Reoliadau neu Orchmylion a wnaed neu fel pe byddent wedi eu gwneud o dan Ddeddf 1984, neu gan neu o dan unrhyw Ddeddfiad arall.

5. Oddieithr lle fo'r gwrthwyneb yn cael ei nodi, bydd unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn i:
- (a) y Gorchymyn hwn neu Orchymyn arall yn cael eu dehongli fel cyfeiriad i'r Gorchymyn hwn neu, fel bo'n berthnasol, orchymyn arall, gan y gall fod hwn wedi neu y bydd o bryd i'w gilydd yn cael eu newid, amrywio neu ychwanegu atynt;
 - (b) Statud neu Reoliad yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at Statud neu Reoliadau o'r fath gan y gall eu bod wedi neu y byddant o bryd i'w gilydd yn cael eu newid neu eu hail-ddeddfu.
6. Mae Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol i ddehongli'r Gorchymyn hwn fel mae'n berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol ac fel pe byddai ar gyfer dibenion Adran 21 o'r Ddeddf honno fod y Gorchymyn hwn yn Ddeddf Seneddol, a phe byddai'r Gorchymynion a ddiddymwyd gan Erthygl 41 yn Ddeddfau Seneddol a ddiddymwyd trwy hynny.

RHAN II

GWAHARDD A CHYFYNGU AROS

7. Oddieithr fel y darparwyd yn Erthyglau 8 i 12 o'r Gorchymyn hwn nid fydd unrhyw unigolyn, ac eithrio ar gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd cwnstabl o'r heddlu yn ei wisg, Swyddog Cymorth Cymunedol neu Swyddog Gorfodi Sifil, yn achosi nac yn caniatáu i unrhyw gerbyd i aros ar y ffyrdd neu ochrau'r ffyrdd a nodwyd ac am y cyfnodau a nodwyd (neu yn achos ffordd neu ochr y ffordd lle fo aros cyfyngedig yn cael ei Ganiatáu, heblaw yn ystod y cyfnod a nodwyd) ar y Cynlluniau.
8. Ni fydd dim yn Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i achosi neu i Ganiatáu i unrhyw gerbyd i aros cyn belled â'i fod yn angenrheidiol i'r diben i alluogi Nwyddau i gael eu llwytho neu eu dadlwytho o'r cerbydau ar y ffyrdd a nodwyd ac am y cyfnodau a nodwyd ar y Cynlluniau:
- AR YR AMOD** oni bai fod hysbysiad yn cael ei roi pedair awr ar hugain ymlaen llaw i'r Cyngor a bod Tystysgrif Hepgor wedi ei derbyn, ni fydd unrhyw gerbyd yn aros ar unrhyw ffordd neu ochr y ffordd lle fo Llwytho wedi ei gyfyngu yn ystod y cyfnodau cyfyngu fel y nodwyd ar y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn:
9. (1) Ni fydd dim yn Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i achosi

neu ganiatáu i unrhyw gerbyd i aros ar unrhyw un o'r ffyrdd, ddarn o'r ffordd neu ar ochrau'r ffordd a nodir yno cyn belled a bo hi'n angenrheidiol i alluogi:

- (a) unigolyn i fynd i gerbyd neu ddod oddi arno;
 - (b) fel y gellir defnyddio'r cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n gyfleus at y dibenion hynny ar unrhyw ffordd arall, mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithgareddau a ganlyn, sef:-
 - (i) gwaith adeiladu, diwydiannol neu ddymchwel;
 - (ii) cael gwared ag unrhyw rwystr i drafnidiaeth;
 - (iii) cynnal, gwella neu ailadeiladu'r ochrau darnau ffyrdd uchod; a
 - (iv) gosod, codi, newid neu atgyweirio ar dir yn ymyl yr ochrau darnau ffyrdd unrhyw garthffos neu brif bibell, pibell neu offer i gyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw lein cyfarpar telathrebu fel a ddiffinnir yn Neddf Telathrebu 1984;
 - (c) fel y gellir defnyddio'r cerbyd yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu ymgynemerwr dŵr, ymgynemerwr carthffosiaeth neu Asiantaeth yr Amgylchedd yn unol â hawliau neu ddyletswyddau statudol, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y dibenion hynny ar unrhyw ffordd arall;
 - (d) cerbyd darparwr gwasanaeth cyffredinol (fel a ddiffinir yn adran 4(3) a (4) o Ddeddf y Gwasanaethau Post 2000) i'w defnyddio i'r diben o ddosbarthu a/neu gasglu'r post;
 - (e) fel y gellir rhoi petrol, olew dŵr neu aer yn y cerbyd o unrhyw garej a leolir ar neu ger y darnau ffyrdd neu ochrau'r ffyrdd uchod;
 - (f) i alluogi'r cerbyd i gael ei ddefnyddio i ddibenion y frigâd dân, Ambiwlans neu'r heddlu;
 - (g) mewn unrhyw achos lle fo'r person sy'n rheoli'r cerbyd,
 - (i) angen iddo stopio gan y gyfraith;
 - (ii) yn orfodol iddo stopio i osgoi damwain, neu
 - (iii) ei fod yn cael ei atal rhag symud ymlaen oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth;
 - (h) os yw'r cerbyd yn arddangos yn y Safle Perthnasol Dystysgrif Hepgor ddilys ac yn aros yn unol â'r telerau a'r amodau a nodir gan y Dystysgrif ddyweddedig.
- (2) Ni fydd dim yn Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i achosi

- neu Ganiatáu i unrhyw gerbyd
- (a) i aros ar le parcio awdurdodedig; neu
 - (b) os yw'n dacsí, aros ar reng dacsis swyddogol.
10. Ni fydd dim yn Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i achosi neu ganiatáu i gerbyd person anabl sy'n arddangos yn y Safle Perthnasol, Fathodyn Person Anabl a Disg Parcio, lle mae'r gyrrwr, neu berson arall â chyfrifoldeb dros y cerbyd wedi nodi amser cychwyn y cyfnod aros, i aros ar ochrau neu ddarnau o'r ffyrdd y cyfeirir atynt yn y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn am gyfnod heb fod yn fwy na thair awr (nad yw'n gyfnod wedi'i wahanu gan egwyl o lai nag awr oddi wrth gyfnod aros blaenorol gan yr un cerbyd ar yr un ochrau darnau ffyrdd neu ar yr un ochr ar yr un diwrnod):
- AR YR AMOD** o safbwyt y ffyrdd a nodir yn y Cynlluniau pan fo Llwytho yn cael ei ganiatáu ar bob amser neu wedi ei gyfyngu i amseroedd penodol bydd y cyfnod hwn i gyd o fewn y cyfnod y caniateir Llwytho.
11. Ni fydd dim yn Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i achosi neu ganiatáu i gerbyd person anabl sy'n arddangos yn y safle perthnasol Fathodyn Person Anabl i aros ar ochr y ffyrdd a nodwyd ar y Cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn lle fo aros wedi ei gyfyngu yn cael ei ganiatáu:
- AR YR AMOD** os yw defnydd y Man Parcio wedi ei gyfyngu i ddosbarth penodol o gerbyd bod y cerbyd sy'n arddangos y Bathodyn Person Anabl hefyd o'r dosbarth a nodwyd.
12. Ni fydd dim yn Erthygl 7 i'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i Yrrwr Cerbyd Gwasanaeth Cyhoeddus i achosi i'r cerbyd hwnnw i aros ar Arosfan Bws gydnabyddedig.

RHAN III

AWDURDODI A DEFNYDDIO MANNAU PARCIO AR Y STRYD

13. (1) Awdurdodir defnyddio'r rhannau o'r ffyrdd a nodwyd ar y Cynlluniau yn amodol ar ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn isod, fel Mannau Parcio i'r dosbarthiadau hynny o gerbydau, mewn safleoedd o'r fath ac ar y dyddiau hynny ac yn ystod yr oriau a nodwyd ar y Cynlluniau.
- (2) Ni fydd dim ym mharagraff (1) o'r Erthygl hon yn cyfyngu pŵer y Cyngor neu gwnstabl o'r heddlu yn ei wisg, i atal rhwystr ar y strydoedd, drwy orchymyn ar adeg pan fo unrhyw

- ymdaith gyhoeddus, gorfoedd neu oleuadau, neu lle fo'r strydoedd yn llawn neu'n debygol o gael eu rhwystro, i gau unrhyw Fan Parcio.
- (3) Ni fydd dim ym mharagraff (1) o'r Erthygl hon yn cyfyngu pŵer y Cyngor neu unigolyn a ddynodwyd gan y Cyngor i atal defnyddio Mannau Parcio a Ganiateir ar ddarn o ffordd neu unrhyw ran ohoni pan fo ef/hi yn ystyried fod ataliad o'r fath yn rhesymol angenrheidiol.
14. Oddieithr fel y darparwyd yn Erthygl 24 ac a nodwyd yn y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn mae Man Parcio yn cael ei ddisgrifio fel bod ar gael i gerbydau o ddosbarth penodol neu mewn Safle Penodol, ni fydd Gyrrwr y cerbyd yn caniatáu iddo aros yn y Man Parcio hwnnw -
- (a) oni bai ei fod o ddosbarth penodol; neu
 - (b) mewn lleoliad arall i'r hyn a nodwyd.
15. (1) Oddieithr fel y darparwyd yn Erthygl 24 o'r Gorchymyn hwn, ni fydd Gyrrwr y cerbyd yn caniatáu iddo aros mewn Man Parcio am fwy na'r uchafswm cyfnod a ganiateir i aros a nodir mewn perthynas â'r Man Parcio hwnnw fel a nodwyd ar y Cynlluniau.
- (2) Oddieithr fel y darparwyd yn Erthygl 24 o'r Gorchymyn hwn, pan fo cerbyd wedi gadael Man Parcio ar ôl aros yno ni fydd Gyrrwr y cerbyd yn caniatáu iddo aros eto ar y Man Parcio hwnnw yn ystod y cyfnod amser ar ôl iddo adael a nodir i'r Man Parcio hwnnw sydd yn y Cynlluniau.
16. Ni fydd Gyrrwr cerbyd yn defnyddio Man Parcio -
- (a) fel ag yn afresymol i atal mynediad i unrhyw eiddo sydd ger y ffordd, neu ddefnydd y ffordd gan unrhyw berson arall, neu fel ag i fod yn niwsans;
 - (b) wrth atal rhwystro'r strydoedd bydd y Cyngor drwy Orchymyn a wnaed ar achlysur unrhyw ymdaith gyhoeddus, gorfoedd neu oleuadau, neu lle fo'r strydoedd yn llawn neu'n debygol o gael eu rhwystro yn cau'r Man Parcio gan arddangos hysbysiad o'r cau ar neu ger y Man Parcio.
17. Bydd Gyrrwr Cerbyd Modur sy'n defnyddio Man Parcio yn diffodd y peiriant cyn gynted ag y bo'r cerbyd yn ei le yn y man parcio, a ni fydd yn tanio'r peiriant ac eithrio i symud y cerbyd neu i adael y Man Parcio.
18. Oddieithr fel y darparwyd yn Erthygl 24 o'r Gorchymyn hwn ni fydd unrhyw berson yn defnyddio

cerbyd, tra bydd mewn Man Parcio, mewn cysylltiad â gwerthu neu hurio ei arbenigedd neu wasanaethau.

- 19 Ni fydd unrhyw berson yn defnyddio cerbyd tra bydd mewn Man Parcio mewn cysylltiad â chynnal a chadw a thrwsio'r cerbyd ac eithrio os yw'r cerbyd wedi torri i lawr i alluogi'r cerbyd i gael ei symud o'r Man Parcio.
20. Bydd cerbyd a ddefnyddir i gludo person anabl sy'n arddangos yn y Safle Perthnasol Fathodyn Person Anabl a Disg Parcio a adewir mewn Man Parcio yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn eithriedig rhag unrhyw gyfyngiad ar amser:

AR YR AMOD fod defnydd y Man Parcio wedi ei gyfyngu i ddosbarth penodol o gerbyd a bod y cerbyd sy'n arddangos Bathodyn Person Anabl hefyd o'r dosbarth a bennwyd.
21. Yn ddarostyngedig i'r profiso sydd yma, pan fo cerbyd yn cael ei adael mewn Man Parcio yn groes i unrhyw un o'r darpariaethau sydd yn Erthyglau 14, 15 neu 16 o'r Gorchymyn hwn bydd person a awdurdodir ar ran y Cyngor yn gallu symud y cerbyd neu drefnu iddo gael ei symud ymaith o'r Man Parcio.

AR YR AMOD pan fo cerbyd yn aros mewn Man Parcio yn groes i ddarpariaeth Erthygl 14(b) o'r Gorchymyn hwn, gall person a awdurdodir ar ran y Cyngor newid neu achosi i newid safle'r cerbyd er mwyn i'w leoliad gydymffurfio gyda'r ddarpariaeth honno.
22. Bydd unrhyw berson sy'n symud cerbyd neu yn newid ei leoliad drwy rinwedd yr Erthygl flaenorol olaf o'r Gorchymyn hwn wneud hynny drwy lusgo neu yrru'r cerbyd neu mewn modd arall yr ystyria sydd ei angen a gall gymryd mesurau o'r fath mewn perthynas â'r cerbyd ag y creda sy'n angenrheidiol i'w alluogi i'w symud neu newid ei leoliad fel bo'r achos.
23. Pan fo unigolyn a awdurdodwyd gan y Cyngor yn symud neu yn gwneud trefniadau i symud cerbyd ymaith o Fan Parcio drwy rinwedd Erthygl 21 o'r Gorchymyn hwn, bydd ef/hi yn gwneud y trefniadau sydd yn rhesymol angenrheidiol i ddal y cerbyd yn ddiogel.
24. Ni fydd y darpariaethau sydd yn Erthygl 14, 15 a 18 o'r Gorchymyn hwn a'r cyfyngiadau a osodwyd gan Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys i unrhyw Gerbyd Hacni wrth aros mewn Rheng Dacs.
25. Serch darpariaethau blaenorol y Gorchymyn hwn, gall y Cyngor yn ôl ei ddisgresiwn gyflwyno Tystysgrif Hepgor i ganiatáu i gerbyd penodol aros ar ffordd neu mewn Man Parcio yn ystod oriau

gweithredu unrhyw gyfyngiadau neu waharddiad i'r gwrthwyneb.

- 26 Gellir canslo Tystysgrif Hepgor ar unrhyw adeg ar ddisgresiwn y Cyngor yn unig a bydd wedyn yn peidio â bod yn ddilys ar unwaith.
- 27 Bydd hysbysiad o ganslo o'r fath yn cael ei anfon drwy'r post i ddeilydd y dystysgrif i unrhyw gyfeiriad, y cred y Cyngor yw cyfeiriad yr unigolyn hwnnw, a bydd y dystysgrif yn cael ei ildio ar unwaith i'r Cyngor.

RHAN II

MYND YN GROES I'R GORCHYMYN

28. (1) Os caiff cerbyd ei adael mewn Man parcio yn ystod Oriau a Ganiateir neu ar unrhyw ffordd neu ddarn o ffordd yn groes i unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn, bydd Tâl Cosb yn daladwy a/neu gellir symud y cerbyd o'r lleoliad hwnnw.
- (2) Yn achos cerbyd lle mae Tâl Cosb yn daladwy, bydd Rhybudd Tâl Cosb yn cael ei gyflwyno gan y Swyddog Gorfodi Sifil yn unol ag adran 78 o'r Ddeddf 2004 .
- (3) Yn achos cerbyd sydd wedi cael Tâl Cosb, dyletswydd y Swyddog Gorfodi Sifil fydd gosod Rhybudd mewn lle amlwg ar y cerbyd, a bydd yn rhybudd sy'n cynnwys y manylion a ganlyn:
- (a) y rhesymau pam fod y Swyddog Gorfodi Sifil yn credu bod y Tâl Cosb yn daladwy mewn perthynas â'r cerbyd;
 - (b) swm y Tâl Cosb sydd yn daladwy;
 - (c) bod rhaid talu'r Tâl Cosb cyn diwedd y cyfnod o 28 diwrnod sydd yn cychwyn ar ddyddiad y Rhybudd;
 - (ch) os bydd y Tâl Cosb yn cael ei dalu cyn pen diwedd y cyfnod o 14 diwrnod sydd yn cychwyn ar ddyddiad y Rhybudd, bydd swm y Tâl Cosb yn gostwng yn ôl yr hyn a nodir
 - (d) os na thelir y Tâl Cosb cyn diwedd y cyfnod o 28 diwrnod, bydd yn bosibl cyflwyno Rhybudd i'r Perchenog gan yr Awdurdod Lleol i'r person yr ymddengys sydd berchen y cerbyd; a'r
 - (dd) cyfeiriad lle dylid talu neu anfon tâl y Tâl Cosb.
- (4) Nodir ar y Rhybudd Tâl Cosb y bydd y Tâl Cosb yn cael ei dalu ddim hwyrach na 4.30 p.m. ar y pedwerydd diwrnod ar ddeg ar ôl diwrnod cyhoeddi'r Rhybudd Tâl Cosb ond os bydd y pedwerydd diwrnod ar ddeg yn disgyn ar ddiwrnod pan fydd yr adran dan sylw ar gau, bydd y

cyfnod talu'r Tâl Cosb i'r Cyngor yn cael ei ymestyn hyd 4.30 p.m. y diwrnod llawn nesaf pan fydd yr adran dan sylw ar agor.

- (5) Os na thelir y Tâl Cosb o fewn 28 diwrnod o'r Rhybudd i'r Perchennog bydd yn bosibl codi'r tâl 50% drwy gyflwyno Tystysgrif Tâl.
- (6) Gall parhau i beidio â thalu arwain at ddyfarniad yn y llys Sirol yn erbyn y Perchennog, i alluogi'r Cyngor adennill y taliadau dyledus.
- (7) Ni fydd gan unrhyw un heblaw gydag awdurdod y Perchennog neu'r unigolyn sydd yn gyfrifol am y cerbyd, neu'r Cyngor, neu o dan eu hawdurdod, hawl i dynnu'r Rhybudd Tâl Cosb sydd wedi'i osod ar gerbyd yn unol â darpariaethau'r Erthygl hon.
- (8) Os bydd cerbyd yn cael ei adael ar ôl cael Tâl Cosb, gall Swyddog Gorfodi Sifil yn ei wisg neu unigolyn sydd yn gweithio yn ôl ei gyfarwyddyd osod dyfais rhwystro symud a rhybudd yn unol â gofynion adran 79 o'r Ddeddf 2004 a dylid ond rhyddhau'r cerbyd o'r ddyfais ar ôl derbyn y Tâl Cosb, neu yn ôl fel y digwydd, tâl cosb gostyngol, ynghyd â ffi rhyddhau o'r fath ag y gall fod y Cyngor ei angen.
- (9) Pan fydd Swyddog Gorfodi Sifil wedi symud cerbyd neu beri iddo gael ei symud yn unol â pharagraff (1) yr Erthygl hon:
 - (a) bydd ef/hi yn gofalu bod y cerbyd yn cael ei gadw yn ddiogel;
 - (b) bydd gan y Cyngor hawl i adennill unrhyw gostau gan y person sydd yn gyfrifol am y fath gostau o ran symud, cadw neu gael gwared â'r cerbyd fel a bennir ganddo o bryd i'w gilydd;
 - (c) bydd darpariaethau Deddf 1984 yn berthnasol i gael gwared â cherbyd o'r fath a symudir gan neu ar ran y Cyngor yn unol â'r Erthygl hon.

RHAN V

DILYSRWYDD

29. Os bydd llys, yr Adran Drafnidiaeth, y Gwasanaeth Dyfarnu Parcio Cenedlaethol neu'r Ganolfan Gorfodaeth Traffig yn datgan bod unrhyw ran o'r Gorchymyn hwn yn annilys neu na ellir ei orfodi, ni fydd datganiad o'r fath yn annilysu gweddill y Gorchymyn hwn.

Rhoddwyd o dan Sêl Gyffredin Cyngor Gwynedd ar yr 28th dydd e FEBRUAR Dwy Fil a Naw.

THE GWYNEDD COUNCIL
(PROHIBITION AND RESTRICTION OF WAITING AND STREET PARKING PLACES)
(EFAILNEWYDD) ORDER 2009

Gwynedd Council (hereinafter referred to as "the Council") in exercise of the powers conferred by Sections 1, 2, 4, 32, 35, 45, 46, 47, 49, 51, 63A, 124 and Part IV of Schedule 9 of the Road Traffic Regulation Act 1984, as amended and the Traffic Management Act 2004 of all other powers them enabling and after consultation with the Chief Officer of Police in accordance with Part III of Schedule 9 to 1984 Act hereby makes the following Order:-

PART I
CITATION AND INTERPRETATION

1. This Order shall come into operation on the 19th day of October 2009 and may be cited as the Gwynedd Council (Prohibition of Waiting) (Efailnewydd) Order 2009

2. In this Order, except where the context otherwise requires, the following expressions have the meanings hereby respectively assigned to them:

"Ambulance" has the same meaning as in the Vehicle Excise and Registration Act 1994;

"Authorised Agent" means the parking services contractor appointed by or duly authorised to act on behalf of the Council for the purposes of the supervision and enforcement of this Order;

"Authorised Parking Place" means any Parking Place on a road authorised or designated by this Order;

"Bus" has the same meaning as in Regulation 22 of the 2002 Regulations;

"Bus Stop" means any area of Carriageway, intended for the waiting by Buses, which is comprised within and indicated by road markings complying with diagram 1025.1 or 1025.3 or 1025.4 and incorporating the words "Bus Stop" in Schedule 6 and a sign complying with diagram 970 in Schedule 5 to the 2002 Regulations;

"Bus Stop Clearway" means any area of Carriageway intended for the waiting by Buses, which is comprised within and indicated by road markings complying with diagram 1025.1, .3 and .4 in Schedule 6 and a sign complying with diagram 974 in Schedule 5 to the 2002 Regulations;

"Carriageway" means a way constituting or comprised in a highway being a way (other than a cycle track) over which the public have a right of way for the passage of vehicles;

"Civil Enforcement Officer" has the meaning defined in Section 76(1) of the 2004 Act

"Disabled Person's Vehicle" has the same meanings as in the Local Authorities' Traffic Orders (Exemption for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000;

"Disabled Person's Badge " and *"Parking Disc"* mean the badge and disc issued by a local authority in accordance with the provisions of the Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles)(Wales) Regulations 2000 or being a badge having effect under these regulations as if it were a Disabled Person's Badge;

"Driver", in relation to a vehicle waiting in a Parking Place or on a road or length of road, means the person driving the vehicle at the time it was left in that Parking Place or road or length of road;

"Enactment" means any enactment, whether public general or local, and includes any order, byelaw, rule, regulation, scheme or other instrument having effect by virtue of an Enactment and any reference in this Order to any Enactment shall be construed as a reference to that Enactment as amended, applied, consolidated, re-enacted by or as having effect by virtue of any subsequent Enactment;

"Goods" means goods or burden of any description and includes postal packets of any description;

"Goods Vehicle" means a motor vehicle which is constructed or adapted for use for the carriage of Goods and which does not exceed 5.30 metres in length or 2.25 metres in height ;

"Hackney Carriage" means a vehicle licensed under Section 38 of the Vehicle (Excise) Act, 1971;

"Immobilisation Device" has the same meaning as in Section 104(9) of the 1984 Act

